



Nos Fawrth, 09 Mai 2023 – 7.30yh  
Festri Salem, Penmachno

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd **nos Fawrth 09 Mai 2023** am 7.30 yn Festri Salem, Penmachno

Minutes of a meeting held on **Tuesday 09 May 2023** at 7.30 at the Salem Vestry, Penmachno

1. Croeso ac ymddiheuriadau am absenoldeb
2. Datganiad o fuddiant
3. Adroddiad Elusen Cymorth Mewn Angen Plwyf Hanesyddol Penmachno
4. Derbyn cofnodion y cyfarfod diwethaf
5. Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol (nid fel arall ar yr agenda)
6. Gohebiaeth
7. Adroddiad Cyllidol
8. Materion Cynllunio
9. Materion eraill
10. Adolygiad cyflog y Clerc

1. Welcome and apologies for absence
2. Declaration of interest
3. A report from Penmachno Charity
4. Confirmation of the minutes from the previous meeting
5. Matters arising from the minutes (not otherwise on the agenda)
6. Correspondence
7. Financial Report
8. Planning Applications
9. Any other business
10. Clerk's pay review

**Presennol:**

Claire Roberts  
Dafydd Gwyndaf (Cadeirydd)  
Daniel Tomos (Clerc)  
Dylan Davies  
Eifion Davies  
Eryl Owain (Is Gadeirydd)  
Geraint Thomas  
Owen Davis  
Wil Edwards  
Dilwyn Roberts (Cyngorydd Sir)

**Present:**

Claire Roberts  
Dafydd Gwyndaf (Chairperson)  
Daniel Tomos (Clerc)  
Dylan Davies  
Eifion Davies  
Eryl Owain (Deputy Chair)  
Geraint Thomas  
Owen Davis  
Wil Edwards  
Dilwyn Roberts (County Councillor)

**Ymddiheuriadau:**

Ceri Phillips

**Apologies:**

Agorwyd y cyfarfod gan y cadeirydd.

The meeting was opened by the chairperson.

## Datganiad o fuddiant

Nid oedd unrhyw ddatganiadau

## Derbyn cofnodion y cyfarfod diwethaf

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod **13 Mawrth 2023** fel rhai cywir, Claire Roberts yn cynnig a Wil Edwards yn eilio.

## Elusen Plwyf Penmachno

Croesawodd y Cadeirydd adroddiad gan Elusen Plwyf Penmachno. Dywedodd Dylan Davies, Cyngorydd Cymunedol ac Ysgrifennydd yr Elusen, fod yr elusen wedi gallu rhoi sawl grant eleni gan gynnwys i Ti a Fi, yr Hen Ysgol, Ty'n y Porth a phrosiect WiFi cymunedol. Dywedwyd bod y cytundeb tenantiaeth fferm bresennol yn dod i ben y flwyddyn nesaf.

## Materion yn codi

**Wal Mynwent Arwelfa:** Derbyniodd y Cyngor un o'r prisiau yn unfrydol. Penderfynwyd parhau i chwilio am gyllid.

**Lorïau yng Nghwm Penmachno:** Adroddwyd bod Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i arwyddion newydd ar yr A5.

**WiFi Cymunedol:** Adroddwyd mai'r capel a'r Hen Ysgol fydd yr adeiladau nesaf i gysylltu â'r WiFi cymunedol.

**Gwesty'r Machno:** Adroddwyd bod y mater hwn bellach yn nwylo Awdurdod y Parc Cenedlaethol a bydd diweddariad pellach yn fuan.

**Llys Meddyg:** Penderfynwyd cysylltu â'r adran priffyrdd eto ynglŷn â'r mynediad peryglus newydd i'r eiddo.

**Llwybr Cyhoeddus 55: Pen-y-Waen - Stryd Llewelyn:** Adroddwyd bod y Cyngor Sir, yn dilyn cyfarfod safle cynhyrchiol iawn, wedi cysylltu ag Openreach, trefnu i drwsio'r palmant, a gofyn am fin graean.

**Sgipiau:** Adroddwyd bod y Cyngor Sir, ers sawl wythnos, wedi anwybyddu ceisiadau am sgip cymunedol ar gyfer y ddau bentref ac yna methu yn eu dyletswydd i ymateb yn Gymraeg. Penderfynwyd mynd â'r mater ymhellach.

**Plas Isaf:** Adroddwyd bod Cymdeithas Tai Gwynedd yn gobeithio cael y tŷ yn barod yn ddiweddarach eleni i'w osod i deulu Cymraeg lleol. Penderfynwyd rhoi gwylod i'r perchnogion am arogl olew y tu allan i'r tŷ.

## Declaration of interest

There were no declarations

## Confirmation of the minutes

The minutes of the **13 March 2023** meeting were accepted as a true record, proposed by Claire Roberts and seconded by Wil Edwards.

## Penmachno Parish Charity

The Chair welcomed a report by Penmachno Parish Charity. Dylan Davies, Community Councillor and Charity Secretary, reported that the charity had been able to give several grants this year including to Ti a Fi, the Old School, Ty'n y Porth and the community WiFi project. It was reported that the current farm tenancy agreement comes to an end next year.

## Matters arising

**Arwelfa Cemetery Wall:** The Council unanimously accepted one of the quotes. It was decided to continue the search for funding.

**Lorries in Cwm Penmachno:** It was reported that the Welsh Government is looking into replacement signs on the A5.

**Community WiFi:** It was reported that the chapel and the Old School will be the next buildings to connect to the community WiFi.

**Machno Inn:** It was reported that this is now in the hands of the National Park Authority and a further update will be provided soon.

**Llys Meddyg:** It was decided to contact the highways authority again regarding the dangerous new access to the property.

**Public Footpath 55: Pen-y-Waen - Stryd Llewelyn:** It was reported that, following a very productive site meeting, the County Council had contacted Openreach, arranged to fix the pavement, and requested a grit bin.

**Skips:** It was reported that the County Council had, for several weeks, ignored requests for a community skip for both villages and then failed in their duty to reply in Welsh. It was decided to take the matter further.

**Plas Isaf:** It was reported that Cymdeithas Tai Gwynedd hope to have the house ready later this year to let to a local Welsh family. It was decided to let the owners know about a smell of oil outside the house.

**Toiledau cyhoeddus:** Adroddwyd bod grant ar gyfer system fynediad newydd yn dal i gael ei ymchwilio.

## Gohebiaeth

**Siop Penmachno:** Cafwyd cwyn am barcio anystyriol a cherbydau yn aml yn rhwystro'r ffordd. Penderfynwyd defnyddio posteri a chyfryngau cymdeithasol i annog pobl i barcio mewn lleoliad priodol. Hefyd, adroddwyd bod ymwelwyr weithiau'n llenwi biniau trigolion lleol gyda sbwriel ar ôl ymweld â'r siop. Penderfynwyd ysgrifennu at berchennog y siop a gofyn am ddarparu bin.

## Adroddiad Cyllidol

Nodwyd bod £9,220.86 yn y banc.

**Talwyd y biliau canlynol:** HSBC £16, Dŵr Cymru £86.95, EON £24, Google £9.20, BT £30.40, Un Llais Cymru £160, BHIB (yswiriant) £420.65, Clerc (cyflog) £1,387.05, Clerc (defnydd cyfrifiadur) £25,

**Talwyd y canlynol i mewn:** Cyngor Sir (praecept) £2,500, G&MJ Cameron £50

Cadarnhawyd bod y cyfrifon ar gyfer 2022-23 yn gywir. Llofnodwyd y ffurflen archwilio flynyddol gan y cadeirydd. Penderfynwyd anfon y cyfrifon at J. Llywelyn Hughes yn Llanrwst ar gyfer yr archwiliad mewnol arferol.

## Materion Cynllunio

Dim ceisiadau cynllunio newydd.

## Materion eraill

**Bron Graig:** Adroddwyd bod dŵr yn dal i lifo'r ffordd.

**Blaen Cwm:** Adroddwyd bod y ffordd mewn cyflwr gwael.

**Blodau:** Penderfynwyd rhoi £100 i Benmachno a £100 i Gwm Penmachno er mwyn gallu prynu blodau.

**Gwrychoedd Bron y Waen:** Penderfynwyd gofyn i Cartrefi Conwy dorri'r gwrychoedd, sy wedi gordyfi.

**Torri Gwair:** Penderfynwyd cysylltu â'r Cyngor Sir eto yn dilyn y safon wael iawn o dorri gwair.

**Public Toilets:** It was reported that a grant for a new entry system is still under investigation.

## Correspondence

**Penmachno shop:** A complaint had been received about inconsiderate parking and vehicles frequently blocking the road. It was decided to use posters and social media to encourage people to park appropriately. Further it was reported that visitors sometimes fill local residents' bins with rubbish after visiting the shop. It was decided to write to the owner of the shop and ask for a bin to be provided.

## Financial Report

It was noted that there was £9,220.86 in the bank.

**The following bills were paid:** HSBC £16, Dŵr Cymru £86.95, EON £24, Google £9.20, BT £30.40, Un Llais Cymru £160, BHIB (insurance) £420.65, Clerc (wages) £1,387.05, Clerc (defnydd cyfrifiadur) £25

**The following was paid in:** Conwy CBC (precept) £2,500, G&MJ Cameron £50

The accounts for 2022-23 were confirmed as correct. The annual audit form was signed by the chairperson. It was decided to send the accounts to J. Llywelyn Hughes in Llanrwst as usual for the internal audit.

## Planning

No new planning applications.

## Other matters

**Bron Graig:** It was reported that water is still flooding the road.

**Blaen Cwm:** It was reported that the road is in a bad state of repair.

**Flowers:** it was decided to donate £100 to Penmachno and £100 to Cwm Penmachno so that flowers can be bought.

**Hedges Bron y Waen:** It was decided to ask Cartrefi Conwy to cut the hedges, which are overgrown.

**Grass Cutting:** It was decided to contact the County Council again following the very poor standard of grass cutting.

**Gadawodd y Clerc yr ystafell tra bod ei adolygiad cyflog blynnyddol yn cael ei drafod:** Penderfynwyd codi cyflog y Clerc i £4.10 uwchlaw cyfradd yr awr SCP14.

**Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol:** Penderfynwyd cysylltu â'r Ymddiriedolaeth a gofyn pryd y bwriadent osod Ysgwyfrith.

**Cyfarfod nesaf**

Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fawrth 11 Gorffennaf 2023, 7.30 yng Nghanolfan Gymunedol Shiloh.

**The Clerk left the room whilst his annual pay review was discussed:** It was decided to increase the Clerk's pay by £4.10 above the SCP14 hourly rate.

**National Trust:** It was decided to contact the Trust and ask when they intent to let Ysgwyfrith.

**Next meeting**

The next meeting will be held on Tuesday 11 July 2023, 7.30 at Shiloh Community Centre.